**SEWR-02-02 (min)**

**PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-DDWYRAIN**

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Gwener 8 Mawrth |
| **Amser:** | 9.30am hyd 12.30 pm |
| **Lleoliad:** | Canolfan Chwaraeon y Rhondda, Yr Ystrad |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Jonathan Morgan (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Geraint Davies | Rhondda |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Michael German | Dwyrain De Cymru |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Jane Hutt | Bro Morgannwg |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| David Melding | Canol De Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| William Bee | Cyfarwyddwr, Comisiwn Hawliau Anabledd |
| Rhian Davies | Prif Weithredwr, Anabledd Cymru |
| Delys Jouvanet | Ymgynghorydd Cyfle Cyfartal, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Maggie Hampton | Rheolwr Gweithrediadau, Celfyddydau Anabledd Cymru a Thrysorydd, Cynghrair Pobl Anabl Rhondda Cynon Taf |
| Roger Galletely | Mencap Cymru |
| Kerri Smallman | Mencap Cymru |
| James Crowe | Cyfarwyddwr, SCOVO |
| Vanessa Webb | Cyfarwyddwr, Cyngor Cymru i'r Deillion |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Roger Chaffey | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau agoriadol**

Estynnodd Geraint Davies groeso ffurfiol i'r Pwyllgor, y cyflwynwyr ac aelodau'r cyhoedd i'r Ystrad. Dywedodd fod anabledd, a oedd yn flaenoriaeth i Gyngor Sir Rhondda Cynon Taf, yn fater amlochrog oedd yn effeithio ar fywydau llawer o bobl.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn falch fod y cyfarfod yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Chwaraeon y Rhondda, Yr Ystrad. Diolchodd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am gael defnyddio eu cyfleusterau ac i staff y ganolfan chwaraeon am eu cymorth.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb**

1. Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Peter Black, Rosemary Butler, Alun Cairns, Jane Davidson, David Davies, Ron Davies, Sue Essex, William Graham, John Griffiths, Brian Hancock, Carwyn Jones, Huw Lewis, Dai Lloyd, Rhodri Morgan, Lynne Neagle, Jenny Randerson, Owen John Thomas a Phil Williams.

**Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror SEWR-02-01 (min)**

2. Dywedodd Geraint Davies ei fod wedi cynnig ymddiheuriadau am absenoldeb. Yn dilyn hynny, cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Chwefror.

**Eitem 3: Sesiwn drafod agored**

3.1 Codwyd y materion canlynol gan aelodau'r cyhoedd:

- Yr angen i sefydlu Comisiwn i hyrwyddo hawliau pobl sydd ag anableddau dysgu ac i sicrhau agwedd gynhwysol tuag at ddatblygu polisi;
- Darparu lleoedd parcio dynodedig i'r anabl mewn ardaloedd preswyl;
- Yr angen i wella mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus i bobl anabl, yn cynnwys darparu seddau addas a chyhoeddi gwybodaeth mewn gwahanol fformatiau;
- Yr angen i ddarparu arwyddion addas mewn adeiladau cyhoeddus, yn enwedig mewn ysbytai, er mwyn sicrhau mynediad cyfartal i bobl â nam ar eu golwg;
- Y cynigion ar gyfer ysgol arbennig newydd y Rhondda, a fyddai wedi ei lleoli yn agos i safle gwaredu sbwriel Nantygwyddon.

2.
3. Mewn ymateb i'r uchod codwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn ymgynghori yn ddiweddar yngln â chynigion am fframwaith drafft ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu, ac roedd y rheiny wedi eu rhestru yn adroddiad y Grp Ymgynghorol ar Anableddau Dysgu dan y teitl 'Fulfilling the Promise'. Byddai'r fframwaith gwasanaeth yn cwmpasu pob agwedd o fywyd person yn cynnwys addysg, hamdden a gwaith. Byddai'n mynd i'r afael ag anghenion a hawliau pobl sydd ag anableddau dysgu.
- Roedd dynodi lleoedd parcio ar gyfer pobl anabl yn fater i awdurdodau lleol. Lle yr oedd parcio dynodedig mewn ardaloedd preswyl yn bodoli, nodwyd nad oedd unrhyw ddarpariaeth gyfreithiol ar gyfer neilltuo lleoedd ar gyfer unigolion a enwyd. Roedd

Cyfarwyddiaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig cyngor ar hysbysiadau cyhoeddus, a allai gael eu defnyddio fel posibilrwydd arall.

- Awgrymwyd bod gofyn am ragor o fuddsoddi mewn gwasanaethau ac isadeiledd trafnidiaeth gyhoeddus er mwyn mynd i'r afael ag anghenion pobl anabl. Nodwyd mai mater i awdurdodau lleol oedd y mathau o leoedd eistedd a ddarperid. Teimlai'r Aelodau y byddai gwneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy hygyrch i bobl anabl yn broses barhaus, y gellid ei chyflawni wrth i'r stoc bresennol gael ei diweddaru a'i disodli.

- Byddai'n hanfodol sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithredu polisi cyfle cyfartal wrth ddarparu arwyddion i'w gwneud yn bosibl i bobl â nam ar eu clyw a'u golwg gael mynediad cyfartal i wasanaethau cyhoeddus. Cytunodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod y ddarpariaeth arwyddion gyda swyddogion, yn enwedig mewn ysbytai. Byddai'n bwysig ystyried hyn fel rhan o'r cynllun gwella ar gyfer ysbytai yng Nghymru.

- Cytunai'r Aelodau ei bod yn hollbwysig cael perthynas effeithiol â phobl anabl er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu wrth ddatblygu polisïau a chynllunio gwasanaethau a darpariaeth. Teimlid bod y sector gwirfoddol yn chwarae rhan allweddol mewn cynrychioli hawliau pobl anabl.

- Nodwyd bod cais i gymeradwyo'r ddarpariaeth gynllunio ar gyfer yr ysgol arbennig gerbron y Gweinidog dros yr Amgylchedd ar hyn o bryd. Teimlid bod ystyriaeth fanwl wedi ei rhoi i'r safle a bod pryderon amgylcheddol wedi cael eu hystyried cyn cytuno ar y cynigion.

**Eitem 4: Comisiwn Hawliau Anabledd – cael gwared ar wahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal**

4.1 Croesawodd y Cadeirydd y cynrychiolwyr i'r cyfarfod a gwahoddodd hwy i roi eu cyflwyniadau.

4.2 Dywedodd Will Bee fod y Comisiwn Hawliau Anabledd wedi cael ei sefydlu yn 2000 i gefnogi rhoi Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 ar waith yn effeithlon. Amlinellodd rôl y Comisiwn a'r gwasanaethau yr oedd yn eu darparu.

4.3 Dywedodd fod tystiolaeth ystadegol yn tynnu sylw at ddiffyg ymwybyddiaeth o'r Ddeddf ac o'r Comisiwn yng Nghymru. Câi hynny ei amlygu yn nifer anghyfartal o isel y galwadau i linell gymorth y Comisiwn a nifer is yr achosion oedd yn cael eu cyfeirio am gefnogaeth unigol. Yn ychwanegol at hynny, roedd tystiolaeth yn awgrymu bod pobl anabl yng Nghymru yn rhoi llai o

werth ar yr hawliau y mae'r ddeddf newydd yn eu rhoi iddynt.

4.4 Teimlai'r Comisiwn nad oedd wedi sicrhau sylw amlwg yn y cyfryngau a bod y wasg leol yn amharod i gynnwys storïau oedd yn ymwneud â materion anabledd.

4.5 Dywedodd Will Bee fod anabledd yn cael ei ystyried fel problem gymunedol mewn rhai rhannau o Gymru, oedd yn golygu cynnig cefnogaeth i unigolion, yn hytrach na'i fod yn fater o hawliau lle y mae anfantais yn codi o amharodrwydd i symud y rhwystrau i bobl anabl gael dewis.

4.6 Dywedodd Rhian Davies fod Anabledd Cymru yn sefydliad ymbarél cenedlaethol ar gyfer grwpiau gwirfoddol oedd yn ymwneud â materion anabledd.

4.7 Dywedodd er gwaetha'r gefnogaeth arbenigol oedd ar gael i bobl anabl, bod llawer yn dal i gael eu hynysu o gymdeithas ac yn parhau i ddioddef anfantais. Er mwyn goresgyn hynny, roedd yn hanfodol symud oddi wrth y 'model meddygol' o anabledd a hyrwyddo 'model cymdeithasol', oedd yn cydnabod y diffyg dealltwriaeth o faterion anabledd a'r ffordd y mae cymdeithas ar hyn o bryd yn gwahaniaethu yn erbyn pobl anabl.

4.8 Pwysleisiodd Rhian Davies yr angen i ddatblygu isadeiledd i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor a chodi ymwybyddiaeth o faterion anabledd. Tynnodd sylw at y prinder hyfforddwyr cydraddoldeb i'r anabl a'r ddibyniaeth ar y sector gwirfoddol i wneud archwiliadau mynediad. Byddai'n hanfodol cynyddu buddsoddiad a rhoi adnoddau digonol ar gael i'r sector gwirfoddol er mwyn llwyddo i hyrwyddo hawliau pobl anabl a darparu cyfle cyfartal.

4.9 Amlinellodd Delys Jouvanet y camau yr oedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn eu cymryd i gyflenwi gwasanaethau i'r anabl yn effeithiol. Roedd y rhain yn cynnwys y gynhadledd 'Thinking Aloud' i geisio barn pobl anabl a phenodi cynghorydd cydraddoldeb. Dywedodd fod archwiliadau mynediad i'r anabl wedi eu cwblhau yn ddiweddar ym mhob un o adeiladau'r awdurdod lleol. Gwnaethpwyd y rhain gan staff llinell flaen oedd wedi mynychu cyfarfodydd briffio a sesiynau ymwybyddiaeth. Ar ôl yr archwiliadau mynediad hyn byddai'r awdurdod lleol yn gwneud newidiadau ac yn parhau i wella ymwybyddiaeth o anabledd. Yn ychwanegol at hynny, byddai cynhadledd ddilynol yn cael ei chynnal i fesur cynnydd a gwerthuso'r gweithredu hyd yma.

4.10 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Roedd yn bwysig i'r Cynulliad Cenedlaethol fabwysiadu dull strategol, oedd yn cynnwys y 'model cymdeithasol' o anabledd er mwyn diwallu anghenion pobl anabl yn effeithiol. Teimlai Rhian Davies y byddai hynny'n golygu newid sylfaenol mewn cyflenwi polisi a dyrannu adnoddau. Byddai angen i'r Cynulliad Cenedlaethol arwain drwy esiampl ac annog cyrff a sefydliadau eraill i newid y ffordd y maent yn ymwneud â materion

anabledd.

- Cafwyd peth gwelliant mewn mynediad i'r anabl i orsafoedd pleidleisio yn ystod y blynyddoedd diwethaf a darganfuwyd bod agweddau staff yn gynyddol gefnogol tuag at faterion anabledd. Er hynny, cytunai'r Pwyllgor fod angen rhagor o waith i sicrhau bod pobl anabl yn cael cyfle cyfartal i gymryd rhan yn y broses etholiadol. Pwysleisiodd yr Aelodau yr angen i awdurdodau lleol ddarparu gorsafoedd pleidleisio addas eraill yn ogystal â chynnig y dewis o bleidleisiau post. Byddai'n bwysig canfod atebion creadigol, yn cynnwys defnyddio archfarchnadoedd. Nodwyd y dylai gweithredu'r gofynion ar hygyrchedd a geid yn y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd gynyddu nifer yr adeiladau cyhoeddus a fyddai ar gael i'w defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio.

- Teimlai'r Comisiwn Hawliau Anabledd fod cyflogwyr a darparwyr gwasanaethau wedi dangos parodrwydd i newid eu hagweddau tuag at bobl anabl ac wedi cymryd rhai camau arwyddocaol tuag at roi'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd ar waith. Er hynny, roedd gwaith sylweddol eto i'w wneud i gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau'r anabl yng Nghymru. Awgrymwyd y byddai budd pellach yn deillio o roi rhan i Siambrau Masnach a Busnes. Cytunai'r Aelodau fod y sector gwirfoddol wedi chwarae rhan allweddol mewn codi ymwybyddiaeth a darparu cyngor hyd yn hyn. Byddai angen darparu cyllid digonol i ganiatáu i sefydliadau gwirfoddol barhau â'r gwaith hwn.

- Mynegwyd pryder am y lefelau diweithdra uchel ymhlith pobl anabl. Cytunai'r Aelodau ei bod yn hanfodol cynnig cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth addas i bobl anabl, yn cynnwys cyflogaeth addas wedi ei chynnal. Yn ychwanegol at hynny, byddai angen parhau i herio rhagfarnau cyflogwyr a stereoteipio. Awgrymodd Rhian Davies fod y diffyg hyblygrwydd o fewn y system budd-daliadau lles yn ffactor oedd yn cyfrannu at lefelau diweithdra uchel ymhlith pobl anabl. Teimlid bod angen cefnogaeth ariannol bellach ar gyfer pobl anabl oedd yn medru ymgymryd â gwaith rhan amser.

- Cafwyd peth trafodaeth ar yr angen i drafod gyda phenseiri i sicrhau bod materion hygyrchedd yn cael blaenoriaeth wrth gynllunio adeiladau newydd. Yn benodol, byddai'n bwysig ystyried mynediad i'r anabl wrth symud ymlaen ag adeilad arfaethedig Canolfan Gelfyddydau'r Mileniwm. Croesawai'r Aelodau y gwaith yr oedd Anabledd Cymru yn ei wneud gyda myfyrwyr yn yr Ysgol Bensaernïol yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Caerdydd.

4.11 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am roi eu cyflwyniadau ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

**Eitem 5: Materion yn ymwneud ag anableddau – safbwynt y sector gwirfoddol**

5.1 Croesawodd y Cadeirydd y cynrychiolwyr i'r cyfarfod a gwahoddodd hwy i roi eu cyflwyniadau.

5.2 Dywedodd Maggie Hampton fod Celfyddydau Anabledd Cymru yn anelu at hyrwyddo cyfle cyfartal a gwella hygyrchedd yn y Celfyddydau i bobl anabl. Dywedodd fod y sefydliad yn darparu hyfforddiant, gwybodaeth a chyngor ar faterion anabledd, yn cynnwys y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.

5.3 Roedd Celfyddydau Anabledd Cymru wedi dod i ben â gweithio mewn Partneriaeth yn llwyddiannus, ond roedd yn anos denu unigolion. Roedd yn bwysig sicrhau bod pobl anabl yn cael mynediad i gyfleoedd hyfforddi a gyrfa addas yn y Celfyddydau. Byddai angen i’r Cynulliad Cenedlaethol gynorthwyo i gael gwared â’r rhwystrau a wynebai pobl anabl mewn cael mynediad i’r celfyddydau a gyrfaoedd o fewn y maes hwnnw.

5.4 Dywedodd Maggie Hampton fod Cynghrair Pobl Anabl Rhondda Cynon Taf wedi ei sefydlu ar ôl canfod bod angen cynrychioli pobl anabl yn lleol. Amlinellodd y broses oedd ynghlwm wrth ffurfio’r Gynghrair a’i threfniadau cyllid.

5.5 Nod y Gynghrair oedd darparu cyfle i bobl anabl ddynodi a mynd i’r afael â’r rhwystrau oedd yn bodoli i bobl anabl ar lefel leol. Roedd hynny’n golygu codi ymwybyddiaeth; galluogi unigolion; herio gwahaniaethu a sicrhau cyfle cyfartal.

5.6 Dywedodd Roger Galletely mai nod Mencap Cymru oedd cynorthwyo pobl sydd ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a’u gofalwyr i ennill rheolaeth ar eu bywydau. Câi hynny ei gyflawni drwy gynnal ymgyrchoedd, darparu gwybodaeth a gwasanaethau a chymryd rhan mewn ymgynghoriadau i gynorthwyo i ddatblygu polisi.

5.7 Pwysleisiodd y gefnogaeth y mae ei hangen ar bobl ag anableddau dysgu a’r angen i sicrhau bod unigolion yn cael mynediad i gyfle cyfartal a’u bod yn gallu gwneud dewisiadau ym mhob agwedd o’u bywydau.

5.8 Teimlai Mencap Cymru fod gofyn am waith pellach i ddarparu cyfleoedd gwaith addas ar gyfer pobl ag anawsterau dysgu. Yn ychwanegol at hynny, byddai angen gwella gwasanaethau dydd a chyfleusterau gofal tymor byr, ynghyd â chyfleoedd hamdden integredig a datblygu gwasanaethau eiriolaeth.

5.9 Pwysleisiodd Kerri Smallman yr angen i fabwysiadu agwedd gynhwysol tuag at ddatblygu polisi ac i annog pobl ag anawsterau dysgu i fynegi eu hanghenion wrth y rheiny sy’n gyfrifol am wneud penderfyniadau. Pwysleisiodd yr angen am wasanaeth eiriol annibynnol, wedi ei ariannu’n ddigonol, drwy Gymru gyfan.

5.10 Dywedodd James Crowe mai corff ymbarél oedd yn cynrychioli 117 o sefydliadau oedd yn ymwneud ag anableddau dysgu yng Nghymru oedd SCOVO (Cynhadledd Sefydlog Sefydliadau Gwirfoddol ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu yng Nghymru). Dywedodd fod y

mudiad yn ymwneud â newid agweddau tuag at anabledd. Er mwyn cyflawni hynny roedd yn hanfodol darparu cyfle cyfartal i wasanaethau dan oed ysgol, a byddai hynny'n gofyn am gyllid digonol. Yn ychwanegol at hynny, byddai angen sicrhau bod pobl ifanc sydd ag anableddau dysgu yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol. Yn olaf, teimlid bod angen digon o annibyniaeth ariannol ar bobl anabl i ganiatáu iddynt ganfod a phrynu gwasanaethau oedd yn diwallu eu hanghenion unigol.

5.11 Teimlai Vanessa Webb o Gyngor Cymru i'r Deillion fod y sector gwirfoddol yn darparu ffynhonnell wybodaeth a syniadau am faterion anabledd. Yn ychwanegol at hynny, roedd sefydliadau gwirfoddol yn darparu peirianwaith lle y gallai'r Cynulliad Cenedlaethol gysylltu â phobl anabl.

5.12 Dywedodd mai nod y Cyngor oedd codi ymwybyddiaeth o nam golwg, a bod hynny'n golygu darparu hyfforddiant dan arweiniad pobl â nam ar eu golwg. Byddai hynny'n sicrhau bod unigolion yn teimlo'n gyffyrddus yn ymwneud â phobl â nam ar eu golwg heb ofni pechu yn eu herbyn.

5.13 Teimlai Vanessa Webb ei bod yn bwysig herio'r syniad bod colli golwg yn rhan arferol o'r broses o heneiddio. Roedd yn hanfodol annog unigolion i fynnu eu hawl i gael help meddygol a mynediad i wasanaethau.

5.14 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Teimlai'r Pwyllgor y byddai'n bwysig codi ymwybyddiaeth o faterion anabledd ymhlith plant a phobl ifanc. Awgrymwyd y gellid defnyddio arferion gorau mewn mesurau gwrth-hiliaeth, yn cynnwys defnyddio modelau rôl cadarnhaol, i helpu i herio rhagfarn a gwahaniaethu.

- Roedd yn hanfodol darparu peirianweithiau addas i sicrhau bod hawliau plant ag anableddau yn cael eu sefydlu o oedran cynnar. Roedd hyn yn cynnwys yr hawl i ddiwallu eu hanghenion addysgol a chymdeithasol personol. Byddai'n bwysig darparu cefnogaeth addas i integreiddio plant anabl yn llwyddiannus i mewn i addysg prif ffrwd, lle mai dyna fyddai'r opsiwn oedd yn cael ei ffafrio. Pwysleisiodd yr Aelodau yr angen i wella hygyrchedd i wasanaethau eiriolaeth annibynnol, yn enwedig i rieni â phlant anabl.

- Teimlai rhai Aelodau y gallai'r cyfryngau torfol gael eu defnyddio fel cyfrwng i godi ymwybyddiaeth o faterion anabledd ac i gynorthwyo i hyrwyddo hawliau'r anabl. Byddai'n bwysig i'r cyfryngau torfol fabwysiadu agwedd gadarnhaol i gynorthwyo mewn symud yr agenda hon yn ei blaen. Yn benodol, roedd gan y wasg leol rôl i'w chwarae mewn cyhoeddi storïau 'newyddion da'. Yn yr un modd, gellid defnyddio cylchgronau

lleol os oedd adnoddau digonol ar gael. Yn ychwanegol at hynny, awgrymwyd bod angen i bobl anabl gael eu cynrychioli o fewn y cyfryngau torfol ac y dylid eu hannog i ystyried cyfleoedd gyrfa o fewn y maes hwn.

- Ailadroddwyd yr angen i gynhyrchu gwybodaeth gyhoeddus, yn cynnwys dogfennau ymgynghori a hysbysiadau cyhoeddus, mewn gwahanol fformatiau.

5.15 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am roi eu cyflwyniadau ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

**Eitem 6: Dyddiad y cyfarfod nesaf**

6.1 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar ddydd Gwener 17 Mai. Byddai'r cyfarfod yn canolbwyntio ar Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a materion trafnidiaeth.

6.2 Cytunai'r Aelodau y dylid cynnal cyfarfod ychwanegol yn ystod tymor yr haf, a fyddai'n caniatáu i'r Pwyllgor drafod adolygiad polisi'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar ynni.